ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

# Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru Welsh Government


# Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2021 i Orffennaf 2022 (ystadegau arbrofol)

**28 Chwefror 2023**
**SFR 9/2023**

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â deilliannau ar gyfer addysg gyffredinol ac addysg alwedigaethol yn y chweched dosbarth ac mewn colegau. Mae'n edrych ar y cynnydd ar draws yr holl gymwysterau a gymerwyd gan ddysgwr fel rhan o'i raglen, yn ogystal â'r graddau a gyflawnodd.

Mae ystadegau ar ddysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn yr adroddiad [Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion](). Ni chynhyrchwyd y mesurau perfformiad safonol ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ar Ddeilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19). Ni ellir cymharu'r ystadegau hynny â'r adroddiad hwn.

**Ffigur 1.1: Crynodeb o fesurau cyflawniad, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 1.1: Mae'r siart bar yn dangos bod 81% o ddysgwyr Safon Uwch wedi cwblhau eu rhaglen dwy flynedd. Fe wnaeth 84% o ddysgwyr galwedigaethol gwblhau eu rhaglen. Fe wnaeth 72% o ddysgwyr Bagloriaeth Cymru gwblhau'r cymhwyster.

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn rhan o gyfres o dri mesur perfformiad cyson ar gyfer colegau a'r chweched dosbarth.

Y mesurau yw Cyflawniad, Gwerth Ychwanegol, a Chyrchfannau.

Dylid deall deilliannau dysgwyr yng nghyd-destun y mesurau eraill.

Ffynonellau:
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR),

Casglu data ôl-16, Cronfa Ddata Arholiadau Cymraeg (WED).

## Yn y datganiad hwn


Prif Bwyntiau 2
Addysg gyffredinol (Safon Uwch) 4
Galwedigaethol 8
Bagloriaeth Cymru 12
Rhywedd 15
Oedran 16
Amddifadedd 18
Cefndir ethnig 21
Darparwyr 25
Geirfa 27
Nodiadau 30
Gwybodaeth ansawdd allweddol 34



Ystadegydd: Thomas Rose ~ 0300 025 9895 ~ ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## 1. Prif Bwyntiau

Mae deilliannau dysgwyr mewn addysg gyffredinol (Safon Uwch) wedi gwella ar y cyfan o'i gymharu â chyn y pandemig. Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr galwedigaethol wedi bod yn waeth.

### Addysg gyffredinol

Roedd y graddau i ddysgwyr yn uwch ym mhob pwnc o gymharu â 2018/19.

Daeth y cynnydd mwyaf o'r graddau canol ac uwch:

- llwyddodd 20% o'r dysgwyr llawn amser a ddechreuodd gymhwyster Safon UG ym mlwyddyn academaidd 2020/21 i ennill cymwysterau cyfwerth â thair Safon Uwch graddau A* i A yn 2021/22, o gymharu â 9% yn 2018/19
- llwyddodd 58% i gael o leiaf tair gradd A* i C, o gymharu â 42% yn 2018/19
- llwyddodd 75% i gael tri neu ragor o gymwysterau Safon Uwch o unrhyw radd, o gymharu â 65% yn 2018/19

Roedd canran y dysgwyr a gwblhaodd eu cymhwyster UG ac a aeth ymlaen i'w hail flwyddyn Safon Uwch yn uwch na chyn y pandemig.

Roedd y deilliannau yn llai cyfartal na chyn y pandemig:

- ni welwyd yr un lefel o gynnydd mewn graddau ymhlith dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg a Du Prydeinig o gymharu â dysgwyr eraill
- cynyddodd graddau fwy ymysg dysgwyr iau
- fe wnaeth y bwlch rhwng dysgwyr o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig a'r cymdogaethau lleiaf difreintiedig dyfu

Roedd dysgwyr a oedd yn astudio Mathemateg, Cemeg, Bioleg a Ffiseg yn arbennig o debygol o gael graddau uchel. Cafodd hanner y dysgwyr mathemateg a oedd yn eu hail flwyddyn Safon Uwch radd A o leiaf.

### Addysg alwedigaethol

Roedd deilliannau ar gyfer dysgwyr galwedigaethol yn is nag yn 2018/19 ar draws pob lefel o ddysgu:

- cwblhawyd 84% o raglenni llawn amser yn 2021/22, o gymharu ag 88% yn 2018/19
- cyflawnwyd 74% o'r prif gymwysterau galwedigaethol yn llwyddiannus, o gymharu ag 80% yn 2018/19

Roedd deilliannau lefel 3 yn is nag yn 2018/19, yn wahanol i'r deilliannau yn ystod dwy flynedd y pandemig pan oeddent yn uwch.

Roedd y cwymp mwyaf mewn cyfraddau llwyddo ymhlith dysgwyr Gwyddorau Cymdeithasol; Gwyddoniaeth a Mathemateg; Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus, a Gofal; a Thechnolegau Peirianneg a Gweithgynhyrchu.

Fel arfer roedd gan ddysgwyr 16 oed, a rhwng 20 a 24 oed, gyfraddau llwyddo uwch na dysgwyr eraill yn 2018/19, ond nid dyna'r sefyllfa yn 2021/22.

Roedd llai o fwlch yn y deilliannau i ddysgwyr o ardaloedd mwy difreintiedig nag yn 2018/19.

## Bagloriaeth Cymru

Roedd deilliannau ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn well na chyn y pandemig i ddysgwyr ar raglenni addysg gyffredinol, ond nid i ddysgwyr galwedigaethol.

## 2. Addysg gyffredinol (Safon Uwch)


Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dysgwyr llawn amser a ddechreuodd astudio rhaglen o dair lefel UG neu ragor (neu gyfwerth) yn eu blwyddyn gyntaf, a'r nifer a aeth ymlaen i gyflawni o leiaf tri chymhwyster Safon Uwch (neu gyfwerth) erbyn diwedd eu hail flwyddyn.

Cafodd arholiadau eu canslo yn ystod haf 2019/20, a 2020/21. Yn 2019/20, derbyniodd dysgwyr Safon Uwch y gorau o radd a aseswyd gan eu canolfan neu radd safonol. Yn 2020/21, cawsant raddau a bennir gan ganolfan. Yn y ddwy flynedd, roedd y graddau a ddyfarnwyd yn tueddu i fod yn uwch na chyn y pandemig.

Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol i ddysgwyr. O ran arholiadau, nid oedd pethau wedi dychwelyd i union fel yr oeddent cyn y pandemig. Er mwyn gwneud yn iawn am y tarfu, cafodd dysgwyr a oedd yn sefyll arholiadau yn 2022 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn pennu canlyniadau tua hanner ffordd rhwng 2018/19 (y tro diwethaf y cynhaliwyd arholiadau) a 2020/21. Dylid ystyried y cyd-destun hwn wrth gymharu â'r deilliannau cyn y pandemig.

### Ffigur 2.1: Cyfres amser o fesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch

Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21.




Disgrifiad o Ffigur 2.1: Mae'r siart llinell yn dangos bod deilliannau ar gyfer Safon Uwch yn uwch yn 2021/22 nag yn 2018/19.

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.1 o'r daenlen ategol

Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o barhau i ail flwyddyn eu cymhwyster Safon Uwch na chyn y pandemig. Aeth 9 o bob 10 o ddysgwyr a gwblhaodd eu harholiadau Safon UG yn 2020/21 ymlaen i'w hail flwyddyn Safon Uwch yn 2021/22. Dim ond 8 o bob 10 a oedd yn gwneud hynny yn y blynyddoedd cyn y pandemig. Mae'r data yn Nhabl 1.1 o'r daenlen ategol.


Y rheswm pennaf am y cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau eu harholiadau Safon Uwch, a'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cael tri chymhwyster Safon Uwch o unrhyw radd, yw'r cynnydd hwn yn nifer y dysgwyr sy'n parhau i'w hail flwyddyn.

Nid oedd unrhyw newid yng nghyfradd cwblhau AS, na chyfradd cwblhau'r ail flwyddyn ar gyfer dysgwyr a oedd wedi dechrau eu hail flwyddyn. Mae data ar hyn yn y daenlen ategol.

Mae'r newid yn nifer y dysgwyr sy'n cael o leiaf tair gradd C neu dair gradd A yn rhywbeth na ellir ei esbonio gan y newid yn y gyfradd gadw. Llwyddodd 2 o bob 10 dysgwr i gael 3 A neu A* yn 2021/22, o gymharu ag 1 o bob 10 yn 2018/19. Roedd y cynnydd yn nifer y dysgwyr a gafodd o leiaf dair gradd C mewn cymwysterau Safon Uwch hyd yn oed yn fwy.

**Ffigur 2.2: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol (Safon Uwch)**


Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran dysgwyr UG ar ôl 8 wythnos



Disgrifiad o Ffigur 2.2: Mae'r diagram llif yn dangos taith y dysgwyr ar gyfer dysgwyr Safon Uwch llawn amser, a oedd yn cychwyn yn 2020/21 ac yn cwblhau eu cymwysterau Safon Uwch yn 2021/22. Mae'r cwymp mwyaf ar ddiwedd y flwyddyn UG, lle nad yw 9% o'r dysgwyr UG yn parhau â’u hail flwyddyn ar ôl 8 wythnos.

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.1 o'r daenlen ategol

**Ffigur 2.3: Deilliannau cyrsiau Safon Uwch ar gyfer y 15 cwrs Safon Uwch mwyaf poblogaidd, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 2.3: Mae'r siart bar yn dangos bod 5 o bob 10 o ddysgwyr a ddechreuodd eu hail flwyddyn Safon Uwch mewn Mathemateg wedi ennill gradd A neu A*. Dyma oedd y gwerth uchaf. Y gwerth isaf oedd ar gyfer Astudiaethau Cyfryngau lle mai dim ond 2 o bob 10 dysgwr a gafodd A neu A*. Nid oedd y pynciau lle'r oedd cyfran uchel o ddysgwyr yn cael gradd A neu uwch bob amser yn bynciau lle'r oedd cyfran uchel o ddysgwyr yn cael gradd C neu uwch.

Mae data i'w weld yn Nhabl 4.1 o'r daenlen ategol

Mae cyfraddau uchel o ddysgwyr yn ennill graddau A ac A* mewn Mathemateg, Cemeg, Bioleg a Ffiseg. Mae'r cyfraddau’n is ym mhynciau Cymdeithaseg, Llenyddiaeth Saesneg ac Astudiaethau Cyfryngau.

Mae gan Hanes a Daearyddiaeth gyfraddau cadw uchel. Fe wnaeth bron i 9 o bob 10 o ddysgwyr a orffennodd eu cymwysterau Safon UG yn y pynciau hynny barhau i'w hail flwyddyn Safon Uwch. Roedd ganddynt gyfraddau cwblhau uchel ar gyfer Safon UG hefyd, ac roedd cyfraddau uchel o ddysgwyr yn ennill gradd C o leiaf. Roedd cyfran uchel o ddysgwyr Addysg Gorfforol yn ennill gradd C o leiaf hefyd.

## 3. Rhaglenni galwedigaethol


Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dysgwyr llawn amser sy'n astudio rhaglenni â chymwysterau galwedigaethol yn bennaf, mewn sector neu faes pwnc penodol. Mae hyd y cymwysterau hyn yn amrywio, felly dim ond cyflawniad dros gyfnod o flwyddyn y mae'r mesurau galwedigaethol yn ei ystyried. Mae llwyddiant mewn rhaglenni galwedigaethol yn cael ei fesur fel canran y prif gymwysterau a astudiwyd a oedd yn llwyddiannus.

Yn 2019/20 a 2020/21, cafodd rhai asesiadau eu canslo a'u disodli gan ddewisiadau amgen fel graddau a aseswyd gan athrawon, cafodd eraill eu haddasu ac roedd rhai wedi'u gohirio. Roedd deilliannau yn is ar y cyfan, ar wahân i raglenni lefel 3 (sy'n cyfateb i Safon Uwch).

Yn 2021/22, fe aeth asesiadau yn eu blaen, ond roedd cyrff dyfarnu'n gallu gwneud addasiadau i arholiadau ac asesiadau, er mwyn helpu i liniaru'r tarfu a gafwyd ar ddysgu oherwydd y pandemig. Dylid ystyried y cyd-destun hwn wrth gymharu â'r deilliannau cyn y pandemig.

**Ffigur 3.1: Mesurau cwblhau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, 2021/22**


Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran y dysgwyr galwedigaethol ar ôl 8 wythnos




Disgrifiad o Ffigur 3.1: Mae'r siart llif yn dangos cynnydd dysgwyr galwedigaethol drwy eu rhaglen. Fe wnaeth 1 o bob 8 dysgwr adael ei raglen alwedigaethol neu drosglwyddo ohoni o fewn yr 8 wythnos gyntaf, sy'n uwch na chyn y pandemig. O'r rhai a oedd heb adael yn yr 8 wythnos gyntaf, aeth 84% ymlaen i gwblhau eu rhaglen alwedigaethol.

Mae data i'w weld yn Nhabl 2.2 o'r daenlen ategol


**Ffigur 3.2: Cyfradd lwyddo ar gyfer y prif gymwysterau a gymerwyd gan ddysgwyr mewn rhaglenni galwedigaethol, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 3.2: Mae'r siart cylch yn dangos bod 74% o'r prif gymwysterau a gymerwyd fel rhan o raglen alwedigaethol lawn amser wedi'u cyflawni’n llwyddiannus. Mae hyn 7 pwynt canran yn is nag yn 2018/19.

Mae data i'w weld yn Nhabl 2.2 o'r daenlen ategol

**Ffigur 3.3: Cyfradd lwyddo yn ôl lefel cymwysterau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, 2018/19 a 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 3.3: Mae'r siart bar yn dangos bod y gyfradd lwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn is ar draws pob lefel na chyn y pandemig yn 2018/19.


Mae data i'w weld yn Nhabl 2.13 o'r daenlen ategol

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y pandemig, gwelodd dysgwyr ar raglenni lefel 3 ddeilliannau gwell na chyn y pandemig ond nid yn 2021/22. Yn 2021/22, rhaglenni lefel 3 oedd y rhaglenni a oedd â'r cwymp mwyaf mewn cyfraddau llwyddo o gymharu â chyn y pandemig. Mae hyn yn wahaniaeth

amlwg i raglenni addysg gyffredinol, lle'r oedd deilliannau'n parhau'n uwch na lefelau cyn y pandemig.

Roedd y cyfraddau llwyddo isaf mewn rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch (70%). Nod rhaglenni mynediad yw paratoi pobl sydd heb gymwysterau traddodiadol ar gyfer astudio yn y brifysgol.

**Ffigur 3.4: Cyfradd lwyddo fesul sector ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn ôl blwyddyn academaidd**





Disgrifiad o Ffigur 3.4: Mae'r siart bar yn dangos mai Gwyddorau Cymdeithasol; Gwyddoniaeth a Mathemateg; ac Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus, a Gofal oedd â'r cyfraddau llwyddo isaf o'r holl raglenni galwedigaethol. Dyma'r tri a oedd â'r gostyngiadau mwyaf yn y gyfradd lwyddo o gymharu â 2018/19 hefyd, ynghyd â Thechnolegau Gweithgynhyrchu a Pheirianneg.

Mae data i'w weld yn Nhabl 2.12 o'r daenlen ategol

Fe wnaeth cyfraddau llwyddo ar gyfer y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi; a Hamdden, Teithio a Thwristiaeth ostwng llai na rhaglenni eraill rhwng 2018/19 a 2021/22. Cododd y gyfradd lwyddo i ddysgwyr ar raglenni Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd eraill.

**Ffigur 3.5 Rheswm y mae dysgwyr yn rhoi'r gorau i raglenni galwedigaethol heb eu cwblhau, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 3.5: Mae'r siart bar yn dangos, i'r dysgwyr nad oeddent wedi cwblhau eu rhaglen alwedigaethol, bod 3 o bob 10 wedi'r rhoi'r gorau i'w rhaglen oherwydd rhesymau personol, bod 2 o bob 10 wedi gadael i fynd i gyflogaeth, a bod 1 o bob 10 wedi gadael oherwydd rhesymau iechyd.

Mae data i'w weld yn Nhabl 2.14 o'r daenlen ategol

## 4. Bagloriaeth Cymru

Cymhwyster i Gymru yn unig yw Bagloriaeth Cymru ac mae wedi'i gynllunio i gael ei astudio fel rhan o addysg gyffredinol neu raglenni galwedigaethol. Ei nod yw datblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer addysg a chyflogaeth.


Mae Bagloriaeth Cymru wedi'i rhannu'n dair rhan. Mae bron pob dysgwr ôl-16 yn astudio'r lefel uchaf, sef Bagloriaeth Cymru Uwch lefel 3.

Mae sawl rhan i Fagloriaeth Cymru lefel 3:

- Tystysgrif Her Sgiliau – cymhwyster â graddau yw hwn, sy'n cyfateb i Safon Uwch
- TGAU Mathemateg- rhifedd a Saesneg neu Gymraeg
- cefnogi cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau galwedigaethol

Mae angen i ddysgwyr gyflawni'r rhain i gyd i ennill y prif gymhwyster Bagloriaeth Cymru, er bod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster annibynnol hefyd.

**Ffigur 4.1: Mesurau cyflawniad ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch yn ôl blwyddyn academaidd**





Disgrifiad o Ffigur 4.1: Mae'r siart bar yn dangos bod deilliannau Bagloriaeth Cymru yn uwch yn 2021/22 nag yn 2018/19.

Mae data i'w weld yn Nhabl 3.1 o'r daenlen ategol

Roedd 57% o ddysgwyr wedi pasio Bagloriaeth Cymru Uwch lefel 3, o'i gymharu â 50% yn 2018/19. Fe wnaeth mwy o ddysgwyr gwblhau a phasio'r Dystysgrif Her Sgiliau, ac fe wnaeth mwy o ddysgwyr gwblhau prif gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**Ffigur 4.2: Mesurau cyflawniad ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch, 2021/22**
Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran y dysgwyr ar ôl 8 wythnos





Disgrifiad o Ffigur 4.2: Mae'r siart llif yn dangos cynnydd dysgwyr drwy'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gan gynnwys eu cynnydd ar y cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau. Ni wnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr na basiodd Bagloriaeth Cymru gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau.

[Mae data i'w weld yn Nhabl 3.1 o'r daenlen ategol]

Ni basiodd bron 1 o bob 3 dysgwr a ddechreuodd Bagloriaeth Cymru yn y Dystysgrif Her Sgiliau. O'r 11,860 a basiodd y Dystysgrif Her Sgiliau, ni wnaeth 1,350 arall dderbyn Bagloriaeth Cymru. Mae hyn oherwydd nad oeddent wedi cwblhau'r cydrannau eraill yn llwyddiannus.

**Ffigur 4.3: Mesurau cyflawniad yn ôl math o raglen dysgwr ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 4.3: Mae'r siart bar yn dangos y cafodd dysgwyr a oedd yn astudio rhaglenni addysg gyffredinol ddeilliannau uwch ym Magloriaeth Cymru na dysgwyr a oedd yn astudio rhaglenni galwedigaethol.

Mae data i'w weld yn Nhabl 3.1 o'r daenlen ategol


Roedd dysgwyr sy'n astudio rhaglenni galwedigaethol yn llai tebygol o gyflawni Bagloriaeth Cymru. Roedd y gyfradd basio ar gyfer dysgwyr ar raglenni galwedigaethol 32 pwynt canran yn is nag ar raglenni addysg gyffredinol (31% o gymharu â 63%).

Roedd y bwlch rhwng addysg alwedigaethol a chyffredinol yn ehangach yn 2021/22 na chyn y pandemig. Dim ond dysgwyr ar raglenni addysg gyffredinol a welodd gynnydd mewn deilliannau. Fe wnaeth deilliannau ar gyfer dysgwyr galwedigaethol barhau'n debyg i rai 2018/19.

Cafodd llai na 5 o ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol A* yn y Dystysgrif Her Sgiliau, o'r 3,625 o ddysgwyr galwedigaethol a oedd heb adael y rhaglen yn gynnar. Llwyddodd 45 o ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol i gael A neu A*.

## 5. Rhywedd

**Ffigur 5.1: Mesurau cyflawniad yn ôl rhywedd, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 5.1: Mae'r siart bar yn dangos y cafodd merched ddeilliannau uwch na bechgyn mewn rhaglenni addysg gyffredinol ac ym Magloriaeth Cymru. Roedd gan fechgyn ddeilliannau uwch mewn rhaglenni galwedigaethol.

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.2, 2.2, 3.2 o'r daenlen ategol


Llwyddodd 77% o ferched i gael tri chymhwyster Safon Uwch (A* i E), o gymharu â 74% o fechgyn. Yr un eithriad yw nifer y dysgwyr a gafodd 3 A*, sy'n gyfartal ar draws y rhywiau.

Fe wnaeth y bwlch rhwng y rhywiau mewn addysg gyffredinol leihau'n sylweddol yn 2021/22 o gymharu â chyn y pandemig.

Roedd dysgwyr gwryw 2 bwynt canran yn fwy tebygol o gyflawni eu rhaglen alwedigaethol na dysgwyr benyw yn 2021/22. Nid oedd bwlch rhwng y rhywiau o ran cyflawniad yn 2018/19.

## 6. Oedran

**Ffigur 6.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl oedran ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 6.1: Mae'r siart bar yn dangos bod gan ddysgwyr 16 oed ar ddechrau eu Safon Uwch gyfraddau cyflawniad uwch na dysgwyr hŷn ar raglenni addysg gyffredinol llawn amser.


Mae data i'w weld yn Nhabl 1.2 o'r daenlen ategol

Roedd dysgwyr 19 neu hŷn hanner mor debygol o gwblhau eu rhaglenni o gymharu â phobl ifanc 16 oed.

Er bod dysgwyr iau wedi gweld cynnydd mewn deilliannau o gymharu â chyn y pandemig, roedd dysgwyr hŷn yn llai tebygol o gwblhau eu cymwysterau Safon Uwch nag yn 2018/19. Mae'r bwlch oedran mewn deilliannau graddau hefyd wedi cynyddu o gymharu â chyn y pandemig.

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru yn dechrau eu harholiadau Safon Uwch yn 16 oed. Efallai fod dysgwyr hŷn wedi dilyn llwybr addysg llai traddodiadol, neu efallai eu bod yn ail-wneud cymwysterau Safon Uwch.

**Ffigur 6.2: Cyfradd lwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn ôl oedran, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 6.2: Mae'r siart bar yn dangos nad oedd perthynas glir rhwng oedran a chyfradd lwyddo mewn rhaglenni galwedigaethol llawn amser.

[Mae data i'w weld yn Nhabl 2.2 o'r daenlen ategol]

Roedd y dysgwyr galwedigaethol â'r cyfraddau llwyddo uwch rhwng 25 a 49 oed, ac roedd cyfraddau llwyddo ar eu hisaf ar gyfer y grwpiau hynny rhwng 18 a 24 oed.

Fe wnaeth y gyfradd lwyddo leihau fwyaf ar gyfer dysgwyr 16 oed a'r rhai rhwng 20 a 24 oed, o gymharu â chyn y pandemig. Byddai pobl ifanc 16 oed yn dilyn rhaglenni yn syth ar ôl diwedd cyfnod eu haddysg orfodol. Ym mhob grŵp, roedd y gyfradd lwyddo 9 pwynt canran yn is nag yn 2018/19. Cyn hynny, roedd cyfraddau llwyddo yn arbennig o uchel yn y categorïau oedran hyn.


# 7. Amddifadedd

Mae'r adran hon yn dangos yr anghydraddoldeb o ran deilliannau dysgu rhwng dysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd llai difreintiedig. Nid yw o reidrwydd yn golygu bod amddifadedd yn peri i ddysgwr gyflawni llai yn academaidd. Er enghraifft, gall fod gwahaniaethau yn y math o addysg ôl-16 sy'n cael ei gynnig yn yr awdurdodau lleol sy'n cynnwys llawer o ardaloedd difreintiedig.

Prif fesur amddifadedd yn y datganiad hwn yw amddifadedd yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ac i'r gwrthwyneb. Daw hyn o brif fynegai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Eleni rydym wedi cynnwys mesur procsi o amddifadedd ar lefel dysgwr hefyd: a oedd dysgwr yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar unrhyw adeg yn yr ysgol uwchradd.

**Ffigur 7.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl amddifadedd cymdogaeth leol y dysgwr a blwyddyn academaidd**




Disgrifiad o Ffigur 7.1: Mae'r graff gwasgariad yn dangos po fwyaf difreintiedig oedd yr ardal yr oedd dysgwyr yn byw ynddi, po isaf eu deilliannau. Roedd deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn uwch nag oeddent yn 2018/19.


[Mae data i'w weld yn Nhabl 1.4 o'r daenlen ategol]

Roedd y bwlch mewn deilliannau rhwng dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yn fwy yn ystod 2021/22 na chyn y pandemig. Cafodd 33% o ddysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig dair A* neu A yn 2021/22. Dim ond 12% o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a gafodd hynny.

Roedd yr effaith hon yn fwyaf gweladwy ymysg dysgwyr a gafodd o leiaf dair gradd C yn eu Safon Uwch. Roedd bwlch o 33 pwynt canran rhwng cyflawniad dysgwyr o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig. Cafodd 74% o ddysgwyr yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig dair C, o gymharu â 41% o ddysgwyr yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Eithriad o ran y bwlch yn tyfu oedd canran y dysgwyr a gafodd o leiaf dair gradd E, lle'r oedd y bwlch yr un fath ag yr oedd yn 2018/19.

**Ffigur 7.2: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl a oedd y dysgwyr erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, ac amddifadedd cymdogaeth leol y dysgwr, 2021/22**





Disgrifiad o Ffigur 7.2: Mae'r graff gwasgariad yn dangos bod cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim a byw mewn ardaloedd difreintiedig yn gysylltiedig â deilliannau is. Hyd yn oed ymhlith dysgwyr nad oeddent erioed wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd gan y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ddeilliannau is na dysgwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd llai difreintiedig.

[Mae data i'w weld yn Nhabl 1.12 o'r daenlen ategol]

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu os ydynt ar gredyd cynhwysol. Roedd gan ddysgwyr a oedd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ryw adeg yn yr ysgol uwchradd ddeilliannau is na dysgwyr nad oeddent erioed wedi bod yn gymwys.

**Ffigur 7.3: Cyfradd lwyddo rhaglenni galwedigaethol yn ôl amddifadedd cymdogaeth leol y dysgwr a blwyddyn academaidd**




Disgrifiad o Ffigur 7.3: Mae'r graff gwasgariad yn dangos po fwyaf difreintiedig oedd yr ardal yr oedd y dysgwr galwedigaethol yn byw ynddi, po isaf ei gyfradd llwyddo. Roedd hyn yn wir yn 2018/19 a 2021/22.


[Mae data i'w weld yn Nhabl 2.4 o'r daenlen ategol]

Nid oedd y cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad mor gryf ag ydyw mewn addysg gyffredinol. Enillodd 72% o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig gymwysterau galwedigaethol, o gymharu â 77% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Roedd y bwlch mewn deilliannau yn llai difrifol yn 2021/22 nag yn 2018/19. Gwelodd dysgwyr yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig lai o gwymp yn y gyfradd lwyddo na dysgwyr eraill o gymharu â chyn y pandemig.

## 8. Cefndir ethnig

**Ffigur 8.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl cefndir ethnig y dysgwr a blwyddyn academaidd**




Disgrifiad o Ffigur 8.1: Mae'r siart bar yn dangos bod dysgwyr ar draws pob cefndir wedi cael graddau uwch yn 2021/22 nag yn 2018/19, ond roedd hyn yn llai gwir i ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig. Dysgwyr â chefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig ac Asiaidd Cymreig oedd â'r canlyniadau uchaf.

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.7 o'r daenlen ategol


Agorodd bwlch anghydraddoldeb mawr i ddysgwyr Safon Uwch o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig. Aeth 58% o ddysgwyr Safon Uwch ymlaen i gael o leiaf tair gradd C yn 2021/22, ond dim ond 45% o ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig a gafodd hynny. Roedd yr anghydraddoldeb hwn yn llawer llai cyn y pandemig yn 2018/2019.

Ar draws pob cefndir ethnig, roedd canran y dysgwyr a gyflawnodd o leiaf dair gradd C 16 pwynt canran yn uwch na chyn y pandemig. Roedd 5 pwynt canran yn uwch i ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig.

Nid oes modd cymharu [Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19)] yn uniongyrchol â'r mesurau hyn, ond roeddent yn dangos anghydraddoldeb tebyg yn 2020/21. Fodd bynnag, ym mlwyddyn gyntaf y pandemig, 2019/20, nid oedd yr anghydraddoldeb yn bodoli.

Dysgwyr o Grwpiau ethnig eraill a welodd y cynnydd mwyaf  o ran cyflawni tair gradd C, cynnydd o 21 pwynt canran ers 2018/2019. Dysgwyr o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig ac Asiaidd Cymreig a welodd y cynnydd mwyaf o ran cyflawni o leiaf tair gradd A, cynnydd o 14 pwynt canran ers 2018/19.

**Ffigur 8.2: Canran y dysgwyr Safon Uwch a gafodd o leiaf dair gradd C yn eu Safon Uwch, yn ôl cefndir ethnig y dysgwr ac a oeddent erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 8.2: Mae'r siart bar yn dangos, ymhlith y dysgwyr nad oeddent erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, fod cyfran lai o ddysgwyr â chefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig wedi cael o leiaf tair gradd C yn eu Safon Uwch nag unrhyw grŵp arall. Ymhlith dysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, dysgwyr o gefndiroedd Gwyn oedd y lleiaf tebygol o gyflawni tair gradd C yn eu Safon Uwch.


[Mae data i'w weld yn Nhabl 1.13 o'r daenlen ategol]

Nid oes yw'n hawdd esbonio'r anghydraddoldeb o ran deilliannau i ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig gan amddifadedd, gan nad yw'r anghydraddoldeb hwn yn bodoli ymhlith dysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Nid yw ond yn ymddangos rhwng dysgwyr nad oeddent erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim.

Yr un yw'r patrwm ar draws y ddau fesur o amddifadedd a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn – cymhwysedd i gael Prydau Ysgol Am Ddim neu amddifadedd cymdogaeth leol y dysgwr.

Dysgwyr â chefndiroedd Gwyn a chefndiroedd Cymysg, Aml-ethnig oedd â'r bwlch mwyaf o ran cyflawniad rhwng dysgwyr mwy difreintiedig a llai difreintiedig. Roedd dysgwyr â'r cefndiroedd hyn a oedd wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn llai tebygol o gwblhau eu cymwysterau Safon Uwch, gyda llai o ddysgwyr yn parhau i'w hail flwyddyn Safon Uwch.

**Ffigur 8.3: Cyfradd lwyddo ar gyfer addysg alwedigaethol yn ôl cefndir ethnig manwl y dysgwr a blwyddyn academaidd, ac eithrio Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill**




Disgrifiad o Ffigur 8.3: Mae'r siart bar yn dangos bod canlyniadau galwedigaethol yn is yn 2021/22 na chyn y pandemig i ddysgwyr o'r rhan fwyaf o gefndiroedd ethnig, ac eithrio rhai o gefndiroedd Indiaidd a Phacistanaidd ac Unrhyw gefndiroedd Asiaidd eraill.


Mae data i'w weld yn Nhabl 2.8 o'r daenlen ategol

[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel wedi'u heithrio er mwyn osgoi datgelu.

Dysgwyr â chefndiroedd Tsieineaidd oedd â'r gyfradd lwyddo uchaf (86%) ar raglenni galwedigaethol yn 2021/22 (ac eithrio rhaglenni sy'n addysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill). Roedd y cwymp mwyaf yn y gyfradd lwyddo ers y pandemig ar gyfer dysgwyr â

chefndiroedd Gwyn Cymreig / Saesnig / Albanaidd / Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeinig, ac ar gyfer dysgwyr yn y categori "Unrhyw gefndiroedd Du, Du Cymreig, Du Prydeinig neu Garibïaidd eraill".

**Ffigur 8.4: Cyfradd lwyddo Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn ôl cefndir ethnig y dysgwr a blwyddyn academaidd**




Disgrifiad o Ffigur 8.4: Mae'r siart bar yn dangos bod cyfradd lwyddo rhaglenni ESOL yn 2021/22 wedi amrywio o 92% ar gyfer dysgwyr â chefndiroedd Tsieinïaidd, i 58% ar gyfer dysgwyr â chefndiroedd Affricanaidd.

Mae data i'w weld yn Nhabl 2.8 o'r daenlen ategol

[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel wedi'u heithrio er mwyn osgoi datgelu.

Yn wahanol i raglenni galwedigaethol eraill, ar raglenni ESOL roedd cwymp sylweddol yn y gyfradd lwyddo i ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig.

Yn y categorïau ehangach, roedd llawer o amrywiaeth yn y gyfradd lwyddo. Y gyfradd lwyddo i ddysgwyr o gefndiroedd Tsieineaidd oedd 92%. I ddysgwyr o gefndiroedd Pacistanaidd, roedd yn 69%.


## 9. Darparwyr

Dylid disgwyl y bydd gan golegau a'r chweched dosbarth mewn ysgolion wahaniaethau yn eu mesurau cyflawniad. Dyma rai ffactorau a allai effeithio ar y mesurau:

- gall chweched dosbarth ysgolion a cholegau ddenu dysgwyr â chefndiroedd, profiad o addysg, a chyrhaeddiad blaenorol gwahanol
- mae chweched dosbarth ysgolion yn darparu cymwysterau lefel 3 (Safon Uwch a chyfatebol) gan mwyaf, ac mae colegau'n darparu cymwysterau o lefel mynediad i lefel 4 ac uwch
- ychydig o leoliadau chweched dosbarth sy'n darparu rhaglenni galwedigaethol, ac os ydynt yn gwneud hynny, yn aml iawn cyfran fechan o ddysgwyr ôl-16 oed yn y chweched dosbarth sy'n eu dilyn
- cyflwynir addysg ôl-16 mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd, gyda chymysgeddau gwahanol o chweched dosbarth ysgolion a cholegau
- mae gan ddarparwyr ofynion mynediad gwahanol ar gyfer rhaglenni
- mae gan chweched dosbarth a cholegau ddulliau ar wahân ar gyfer casglu data a gall hyn gael effaith fechan ar sut y cyfrifir rhai mesurau

Gan nad oes llawer o chweched dosbarth ysgolion yn darparu rhaglenni galwedigaethol, mae arferion ambell ysgol yn effeithio'n fawr ar eu mesurau cyflawniad galwedigaethol.

**Ffigur 9.1: Mesurau cyflawniad ar gyfer chweched dosbarth ysgolion a cholegau, 2021/22**




Disgrifiad o Ffigur 9.1: Mae'r siart bar yn dangos bod gan chweched dosbarth ddeilliannau uwch ar gyfer addysg gyffredinol na cholegau ar y cyfan, ond roedd gan ddysgwyr mewn colegau gyfradd lwyddo uwch ar raglenni galwedigaethol.

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.5, 2.5, 3.5 o'r daenlen ategol

Llwyddodd 79% o ddysgwyr i gael tri chymhwyster Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, o gymharu â 65% o ddysgwyr mewn colegau. Mae'r bwlch hwn yn fwy nag yr oedd cyn y pandemig yn 2018/19.

Mae'r gwahaniaeth mwyaf yn y deilliannau addysg gyffredinol oherwydd bod dysgwyr yn y coleg yn llai tebygol o gwblhau eu cymwysterau AS, yn llai tebygol o fynd ymlaen i wneud eu A2, ac yn llai tebygol o gwblhau eu A2. Roedd y rhai a wnaeth gwblhau eu A2 yr un mor debygol o gael o leiaf tair gradd C â'r rhai a oedd yn cwblhau eu A2 yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, roedd mwy o ddysgwyr yn y chweched dosbarth yn dal i gael y graddau uwch.

Roedd gan golegau gyfraddau llwyddo uwch ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, ond cyfraddau cwblhau ychydig yn is. Roedd y bwlch yn llawer llai nag yr oedd yn 2018/19.

# Geirfa

## Blwyddyn academaidd

Ar gyfer ysgolion, mae'r flwyddyn academaidd rhwng 1 Medi a 31 Awst. I golegau, mae'r flwyddyn academaidd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

## Oedran

Cyfrifir oedran dysgwr o 31 Awst ar ddechrau ei flwyddyn UG ar gyfer addysg gyffredinol, ac ar ddechrau'r flwyddyn a enwir ar gyfer addysg alwedigaethol.

## UG, A2 a Safon Uwch

Mae cymwysterau Safon Uwch yn cael eu hastudio dros 2 flynedd gan amlaf. Fel rheol, mae dysgwr yn cymryd cymwysterau Uwch Gyfrannol TAG (UG) yn y flwyddyn gyntaf, ac yna gallant fynd ymlaen i gymryd y cymhwyster TAG Uwch cyffredinol yn yr ail flwyddyn. Cyfeirir at yr ail flwyddyn weithiau fel y flwyddyn A2.

Bydd rhai dysgwyr yn cymryd cymwysterau Safon Uwch llinol, lle maent yn treulio dwy flynedd yn gweithio tuag at gymhwyster Safon Uwch heb gymryd TAG Uwch Gyfrannol.

## Colegau a chweched dosbarth ysgolion

Yn y datganiad hwn, ystyr 'colegau' yw sefydliadau addysg bellach, a elwir hefyd yn SABau. Mae rhai sefydliadau addysg bellach yn grŵp o sawl coleg. ‘Mae 'Ysgolion' neu 'Chweched dosbarth' yn cyfeirio at y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir.

Diffinnir Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant fel coleg. Mae Coleg Cymunedol y Dderwen yn chweched dosbarth ysgol.

## Cyrsiau

Mae cyrsiau yn gymwysterau unigol y mae dysgwr yn eu hastudio. Er enghraifft, Safon Uwch ffiseg.

## Cyfradd gwblhau

Y gyfradd gwblhau yw cyfran y rhaglenni neu'r gweithgareddau sydd wedi'u gorffen, p'un ai a gafodd y cymwysterau eu cyflawni ai peidio. Ewch i'r nodiadau am ragor o wybodaeth.

## Gadael yn gynnar

Caiff dysgwyr eu diffinio fel dysgwyr sy'n gadael yn gynnar os ydynt:

- yn gorffen eu rhaglen o fewn 8 wythnos i'w dyddiad cychwyn
- ac nad ydynt yn cwblhau'r rhaglen honno
- a bod hyd disgwyliedig y rhaglen yn 24 wythnos neu ragor

Mae dysgwyr sy'n gadael yn gynnar yn cael eu heithrio o'r mesurau.

## Cefndir ethnig

Cyflwynir categorïau ethnig yn ôl safonau wedi'u cysoni Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei hadrodd gan y dysgwr ei hun.

### Prydau Ysgol Am Ddim

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu os ydynt ar gredyd cynhwysol. Dim ond dysgwyr sydd wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'w hawdurdod lleol a fydd yn cael eu cofnodi fel rhai cymwys.

Mae dysgwr yn cael ei ddiffinio yn yr adroddiad hwn fel "wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar ryw adeg" os oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn yr ysgol uwchradd yng Nghymru. Os nad oedd yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn o'r ysgol uwchradd yng Nghymru mae'n cael ei ddisgrifio fel "erioed wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim'. Mae dysgwyr na ellid eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru yn cael eu categoreiddio'n anhysbys.

### Addysg gyffredinol

Mae addysg gyffredinol yn cyfeirio at raglen o ddysgu sy'n cynnwys cymysgedd o gymwysterau ar draws sawl maes pwnc. Ym maes dysgu ôl-16, Safon Uwch yw'r cymwysterau hyn yn aml, ond gall dysgwyr gymryd cymysgedd o gymwysterau galwedigaethol fel rhan o'u rhaglen addysg gyffredinol.

### Cymdogaeth leol

Ardal fechan a elwir yn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n cynnwys cyfeiriad y dysgwr.

### Rhaglen

Mae rhaglen yn gasgliad o gymwysterau y bydd dysgwr yn ei hastudio. Er enghraifft, gall rhaglen Safon Uwch gynnwys tri chymhwyster Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Gall enghraifft o raglen alwedigaethol fod yn 'Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 1', sy'n cynnwys astudio 'Diploma mewn Gwaith Coed a Saernïaeth' fel y prif gymhwyster, ynghyd ag unrhyw gymwysterau ategol, fel mathemateg cyn TGAU.

### Lefelau cymwysterau

Mae lefelau cymwysterau yn amrywio o lefel mynediad i lefel 8.

Mae cymhwyster lefel 1 gyfwerth â D i G ar lefel TGAU, mae cymhwyster lefel 2 gyfwerth ag A* i C ar lefel TGAU, ac mae cymhwyster lefel 3 gyfwerth ag UG neu Safon Uwch.

Mae gan y Fframwaith Credydau a Chymwysterau: canllaw i ddysgwyr ddiagram yn amlinellu lefelau'r gwahanol gymwysterau.

### Meysydd pwnc sector

Mae meysydd pwnc sector yn seiliedig ar y 15 maes dysgu haen gyntaf sy'n cael eu dosbarthu gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (OfQual). Gallant gyfeirio at bwnc rhaglen alwedigaethol gyffredinol, neu gyrsiau unigol.

### Cyfradd lwyddo

Y gyfradd lwyddo yw cyfran y prif gymwysterau a ddilynwyd a gyflawnwyd. Ewch i'r nodiadau am ragor o wybodaeth.

### Addysg alwedigaethol

Mae addysg alwedigaethol yn gyfres o weithgareddau dysgu y mae dysgwr yn eu cymryd gyda'r nod o'u paratoi ar gyfer maes gwaith penodol. Mae BTECs yn fath nodweddiadol o gymhwyster galwedigaethol a gymerir fel rhan o raglen alwedigaethol.

## Nodiadau

Cyhoeddir tablau ochr yn ochr â'r datganiad hwn sy'n cynnwys yr holl ddata a gyflwynir yma.

### Ffynonellau data

Dyma'r prif ffynonellau data a ddefnyddir yn y datganiad hwn:

a. Casglu Data Ôl-16: bob mis Hydref, mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir sydd â chweched dosbarth ac ysgolion canol sydd â disgyblion ym mlynyddoedd 12, 13 a/neu 14, roi gwybod am yr holl raglenni a gweithgareddau dysgu a wnaed gan y disgyblion yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

b. Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR): mae'n cynnwys data am addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Caiff ei gasglu ar sail 'dreigl' drwy gydol y flwyddyn gyda chyfnodau rheolaidd o rewi ystadegau. Dyma'r ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach (colegau) yng Nghymru.

c. Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED): mae'n cynnwys data ar niferoedd sy'n sefyll arholiadau a deilliannau a gasglwyd gan nifer o sefydliadau dyfarnu.

Daw'r holl ddata ar gyfer sefydliadau addysg bellach o LLWR. Ar gyfer ysgolion, mae data dysgwyr yn dod o'r broses casglu data Ôl-16, ac mae data cyrhaeddiad cymwysterau yn cael eu cymryd drwy baru dysgwyr â WED.

### Rhaglenni addysg gyffredinol

Dysgwyr llawn amser a oedd wedi cofrestru ar raglenni dysgu lefel UG yn y flwyddyn academaidd flaenorol yw'r cohort sylfaenol ar gyfer mesurau rhaglenni addysg gyffredinol. Yna mae'r dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglenni UG yn cael eu paru â dysgwyr sy'n dechrau rhaglen A2 yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae cyflawniad y dysgwr dros y ddwy flynedd lawn yn cael ei gymryd i gyfrifo a oedd y dysgwr wedi cyflawni tri chymhwyster Safon Uwch (neu gyfwerth) ar raddau penodol.

Dim ond y cymwysterau hynny sy'n cael eu cymeradwyo neu eu dynodi i'w defnyddio yng Nghymru sy'n cael eu cynnwys yn y mesurau cyflawniad. Mae arholiad yn cael ei ddiystyru pan fydd dysgwr yn cyflawni gradd uwch neu gymhwyster lefel uwch yn yr un grŵp o bynciau. Os yw cymhwyster yn cael ei ddiystyru yna nid yw'n cyfrif tuag at yr ystadegau a gyhoeddir yn y datganiad hwn. Mae cymwysterau tebyg o ran maint a gwerth i Safon Uwch yn cael eu cyfrif tuag at y mesur cyflawniad ar gyfer addysg gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys diplomâu atodol BTEC a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch, er enghraifft.

### Rhaglenni galwedigaethol

Y cohort sylfaenol ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yw dysgwyr llawn amser ar raglenni galwedigaethol a ddaeth i ben yn y flwyddyn academaidd bresennol. Mae hyn i gyfrif am hyd amrywiol rhaglenni galwedigaethol.

Mae dysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Iau a Sgiliau Dysgwyr Annibynnol wedi'u heithrio.

Mae darparwyr yn adrodd pa gymwysterau mewn rhaglen dysgwr sy'n cael eu hystyried yn brif gymwysterau. Gall hyn fod yn wahanol yn dibynnu ar y dysgwr. Dim ond cymwysterau Mynediad i Addysg Uwch a chymwysterau sydd wedi eu cymeradwyo neu eu dynodi i'w defnyddio yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y mesur.

Mae'r gyfradd lwyddo yn cael ei chyfrifo wedyn fel nifer y prif gymwysterau a gyflawnwyd, wedi'i rannu â nifer y prif gymwysterau a wnaed. Gall dysgwr gael sawl prif gymhwyster mewn un rhaglen. Mae Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch wedi'i chynnwys.

### Bagloriaeth Cymru Lefel 3 a Thystysgrif Her Sgiliau

Y cohort sylfaenol yw dysgwyr sy'n dechrau Bagloriaeth Cymru Lefel 3 yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Yna mae'r dysgwyr yn cael eu paru ag ail ran Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau yn naill ai'r flwyddyn academaidd bresennol neu'r flwyddyn academaidd flaenorol.

### Dysgwyr sy'n gwneud sawl rhaglen ddysgu gyda'r un darparwr

Pan fo dysgwr yn gwneud mwy nag un rhaglen addysg gyffredinol neu raglen alwedigaethol gyda'r un darparwr yn ystod blwyddyn academaidd, y rhaglen ddysgu ddiweddaraf a wneir sy'n cael ei chyfrif yn y mesurau perfformiad (er enghraifft, newid o raglen â phedair lefel UG i raglen â thair lefel UG). Pe bai dysgwr yn cymryd rhaglen alwedigaethol a rhaglen addysg gyffredinol yn yr un flwyddyn, yna bydd y dysgwr hwnnw'n ymddangos ym mhob mesur.

### Dysgwyr yn trosglwyddo rhwng darparwyr

Pan fo dysgwr yn cofrestru ar raglen ddysgu ac yna'n tynnu'n ôl/trosglwyddo o'r rhaglen honno ac wedyn yn dechrau dysgu mewn darparwr gwahanol, bydd y ddwy raglen ddysgu yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad.

### Talgrynnu

Mae'r holl ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Nid yw niferoedd sy'n llai na 5 yn cael eu cynnwys. Mae canrannau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Nid yw canrannau sy'n seiliedig ar enwadur o lai na 23 yn cael eu cynnwys.

Mae gwahaniaethau rhwng gwerthoedd yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu, felly gall fod anghysondebau bach o'u cymharu â'r ffigurau wedi'u talgrynnu.

### Statws ystadegau arbrofol

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi fel ystadegau arbrofol, gyda bwlch o ddwy flynedd yn sgil y pandemig. Mae'r statws yn adlewyrchu'r datblygiadau parhaus i'r fethodoleg ac ansawdd data. Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu sut mae trosglwyddiadau rhwng rhaglenni dysgu yn cael eu trin mewn pryd ar gyfer datganiad 2022/23.

Mae rhai materion yn ymwneud ag ansawdd data yn dal i fodoli, yn enwedig casglu data ôl-16. Rydym yn cydweithio ag ysgolion i ddysgu'r arferion gorau wrth gyflwyno data ar gyfer casglu data ôl-16 ac i helpu i wella ansawdd y data a gyflwynir.

Pan fydd y materion hyn yn cael eu datrys, byddwn yn ystyried dileu'r statws ystadegau arbrofol a gweithio tuag at asesiad Ystadegau Gwladol.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir darparu'r adborth drwy e-bost i post16ed.stats@llyw.cymru.

### Mesurau cyson

Mae'r mesurau perfformiad cyson yn cyfuno data o golegau a chweched dosbarth ysgolion. Yn y gorffennol, roedd mesurau ar wahân o ddeilliannau dysgwyr i bob un, er eu bod yn darparu llawer o'r un rhaglenni dysgu.

Y mesurau perfformiad cyson yw:

- Cyflawniad – lefel cwblhau, lefel cadw dysgwyr a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru
- Gwerth ychwanegol – y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr uwchlaw yr hyn a fyddai fel arfer i'w ddisgwyl yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhywedd
- Cyrchfannau – cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyflogaeth a/neu ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch).

Nod y mesurau yw trin colegau ac ysgolion yn gyson. Fodd bynnag, nid oes modd osgoi gwahaniaethau bach oherwydd bod data colegau ac ysgolion yn dod o ffynonellau ar wahân.

### Statws gwerth ychwanegol

Yn 2016 yn dilyn proses gaffael, penodwyd FFT Education Ltd yn gontractwr i ddatblygu'r mesur gwerth ychwanegol a chynhyrchu adroddiadau ar gyfer ysgolion a cholegau. Mae'r contract gwerth ychwanegol ôl-16 gyda FFT wedi dod i ben bellach, ac ni chyhoeddir unrhyw adroddiadau pellach o dan y fethodoleg hon. Rydym yn ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â gwerth ychwanegol yn y dyfodol, ond oherwydd y tarfu ar asesiadau yn 2020 a 2021, y cynharaf y gallai model newydd fod ar waith fyddai 2024/25.

### Nodweddion gwarchodedig

Mae'r datganiad yn cynnwys ystadegau ar rywedd, oedran ac amddifadedd cymdogaeth leol dysgwr (LSOA) yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Eleni, ychwanegwyd gwybodaeth am gefndir ethnig y dysgwr a chymhwystra i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Mae’r daenlen ategol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am namau dysgwyr mewn colegau.

Ar gyfer dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, daeth yr wybodaeth am gefndir ethnig o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Roedd dysgwr yn cael ei gategoreiddio fel "Yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar ryw adeg" os oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar unrhyw adeg yn yr ysgol uwchradd. Mae gwybodaeth am gymhwysedd i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn cael ei chyfrifo drwy baru dysgwyr â'u cofnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) drwy set ddata Matched Education.

Mae hyn yn golygu nad yw statws dysgwyr na chawsant eu haddysg yng Nghymru yn hysbys. Hefyd, i rai dysgwyr a symudodd i Gymru yn ystod ysgol uwchradd, bydd llai o wybodaeth. Ni fydd rhai dysgwyr yn gallu cael eu paru â'u cofnod CYBLD hyd yn oed os yw'r cofnod CYBLD yn bodoli.

Y broblem olaf gyda'r cyfrifiadau cymhwystra i gael Prydau Ysgol Am Ddim yw nad oedd set ddata Matched Education ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol ar gael adeg cyhoeddi’r datganiad hwn. Felly dim ond y dysgwyr a oedd â chofnod Ôl-16 cynharach yr oedd modd eu paru. Gellid paru'r rhan fwyaf o ddysgwyr addysg gyffredinol, oherwydd bod ganddynt flwyddyn UG gynharach, ond ni fu modd paru cynifer o ddysgwr galwedigaethol. Rydym yn gobeithio y bydd y set ddata Matched Education ar gael yn gynharach mewn blynyddoedd i ddod.

Dim ond yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yr oedd gwybodaeth am namau ar gael, ac nid oedd modd ei chynhyrchu ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o greu mesur cyson ar draws dysgwyr chweched dosbarth a'r coleg.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymharedd a Chysondeb.

### Perthnasedd

Defnyddir y mesurau a nodir yn y cyhoeddiad hwn:

- gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad darparwyr ac fel gwybodaeth sylfaenol i osod targedau ar gyfer gwelliannau fel rhan o'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16;
- gan Estyn, er mwyn llywio dyfarniadau arolygu ar safonau; a
- chan ddarparwyr eu hunain, fel offeryn rheoli i fesur eu perfformiad eu hunain a meincnodi eu hunain yn erbyn cyfartaleddau'r sector, fel rhan o'u cylchoedd hunanasesu.

Defnyddir y mesurau hyn hefyd yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi’r data sylfaenol ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Aelodau o'r Senedd ac ymchwilwyr yn y Senedd;
- adrannau eraill y llywodraeth;
- awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol;
- myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion;
- ysgolion a sefydliadau addysg bellach;
- dinasyddion, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

### Cywirdeb

Mae'r ffigyrau yn y datganiad hwn yn adlewyrchu sefyllfa derfynol blwyddyn academaidd 2021/22. O bryd i'w gilydd, gall diwygiadau ddigwydd oherwydd camgymeriadau yn ein prosesau ystadegol neu pan fydd cyflenwr data yn hysbysu Llywodraeth Cymru ei fod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, gwneir penderfyniad ynghylch a yw'r newid yn ddigon sylweddol i gyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Lle na ystyrir bod newidiadau'n arwyddocaol, bydd ffigurau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

Cafodd y mesurau cyson eu hoedi am ddwy flynedd yn ystod y pandemig. Yn ogystal, amharwyd ar batrymau dysgu a diwyg ac amseriad asesiadau. Bydd rhai rhaglenni yn yr adroddiad hwn wedi dechrau yn 2020/21 ac mae'n bosib bod y tarfu hwnnw wedi effeithio arnynt. Gallai'r ataliad, a'r effeithiau ar ddata fod wedi cael effaith ar y broses casglu data hefyd.

Cynhaliwyd cylch cymodi safonol yn 2021/22 ar gyfer colegau er mwyn gwella ansawdd y gwaith casglu data.

Dywedodd rhai ysgolion fod dysgwyr yn astudio Bagloriaeth Cymru neu'r Dystysgrif Her Sgiliau, ond nid y ddau. Ni ellir cymryd y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru ar wahân, felly yn y mesurau, tybiwyd bod dysgwyr a oedd yn astudio un yn astudio'r llall. Os oedd Bagloriaeth Cymru yn cael ei chwblhau, tybiwyd bod y Dystysgrif Her Sgiliau wedi'i chwblhau oherwydd ei bod yn elfen angenrheidiol o Fagloriaeth Cymru. Os oedd cofnod Bagloriaeth Cymru ar goll, tybiwyd bod y dysgwr wedi tynnu'n ôl.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2021/22 sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf / Awst 2022. Mae'r data LLWR yn mynd drwy broses gysoni o fis Awst i fis Rhagfyr wedi i'r flwyddyn academaidd ddod i ben. Cymerwyd darlun terfynol o ddata LLWR ym mis Rhagfyr 2022. Cymerwyd data terfynol ôl-16 ym mis Rhagfyr 2022 hefyd.

### Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw ac yna'n cael ei gyhoeddi yn yr adran Ystadegau ac Ymchwil ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir y datganiad fel fformat hygyrch PDF (PDF/A), ochr yn ochr â thaenlen sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r daenlen yn dilyn canllawiau hygyrchedd.

### Cymharedd a chysondeb

Oherwydd y newidiadau yn y modd y dyfarnwyd graddau yn 2020 a 2021, a'r tarfu ar ddysgu a achoswyd gan y pandemig, ni wnaeth Llywodraeth Cymru lunio'i mesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion na dysgu ôl-16 yn 2019/20 nac yn 2020/21. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ynghylch Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws. Mae’r ystadegau hynny'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodolegau gwahanol ac ni ellir eu cymharu â'r adroddiad hwn. Er enghraifft, cyfrifir y mesurau addysg gyffredinol ar sail blwyddyn.

Nid ydym yn cynghori cymharu ystadegau blwyddyn academaidd 2016/17 â blynyddoedd diweddarach, oherwydd cafodd sawl darparwr eu gwahardd yn y flwyddyn gyntaf oherwydd problemau’n ymwneud ag ansawdd data. Mae ansawdd y data wedi gwella ers hynny, ac mae pob darparwr ôl-16 wedi'u cynnwys ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Gellir cymharu'r ddwy flynedd hyn, gan mai bach iawn oedd y newidiadau mewn methodoleg.

Cafodd Sgiliau Byw'n Annibynnol eu gwahardd yn y mesurau o raglenni galwedigaethol Lefel Mynediad yn 2018/19.

Mae'r ystadegau hyn yn rhan o gyfres o fesurau cyson. Y mesurau eraill yw Gwerth Ychwanegol, a Chyrchfannau. Gyda'i gilydd, maent yn dangos darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr.

Mae cohort a methodoleg sylfaenol y mesurau cyflawniad cyson yn wahanol i fesurau perfformiad blaenorol, ac ni ellir eu cymharu.

Mae gan ddatganiad ystadegol Canlyniadau Arholiadau Llywodraeth Cymru ystadegau ar ddeilliannau Safon Uwch ar gyfer dysgwyr 17 oed mewn ysgolion. Nid oes modd cymharu'r rhain â'r mesurau cyflawniad hyn oherwydd y canlynol:

- mae canlyniadau'r arholiadau yn fesurau blwyddyn, tra bod y mesurau cyflawniad yn fesurau dwy flynedd sy'n edrych ar gynnydd dysgwyr o'u rhaglen UG
- mae'r canlyniadau arholiadau yn adrodd ar ddysgwyr 17 oed, tra bod mesurau cyflawniad yn adrodd ar ddysgwyr o bob oedran mewn addysg ôl-16
- mae canlyniadau'r arholiadau yn adrodd ar ysgolion yn unig, tra bod y mesurau cyflawniad yn adrodd ar ddysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Roedd y mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn cynnwys yn flaenorol ystadegau ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach mewn sefydliadau addysg bellach. Nid oes modd cymharu'r ystadegau â'r mesurau cyflawniad, ond maent yn darparu cyfres amser ar ddeilliannau blaenorol dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Adran Addysg yn cyhoeddi deilliannau canlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau 16-18 eraill ar gyfer ysgolion yn ogystal â mesurau cyrchfan 16-18 sy'n cwmpasu'r cyrchfannau i gyflogaeth a dysgu, enillion a chynnydd dysgwyr.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n rhaid eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, lle mae Gweinidogion Cymru yn adolygu'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Cafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu gosod gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a gyflwynwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r rhai a gyflwynwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, a'r naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

### Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen a'r tablau ategol ar gael yn: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad).

Mae gwybodaeth gefndirol am fesurau ôl-16 cyson ar gael o wefan Hwb

### Y diweddariad nesaf

Chwefror 2024 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23.

### Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. E-bostiwch yr adborth i: post16ed.stats@llyw.cymru

### Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, oni nodir fel arall.